OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 3115 (Cy.235)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU
PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2005

Wedi'u gwneud - -	*8 Tachwedd 2005*
Yn dod i rym - -	*30 Rhagfyr 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 9(1) a (3),10 a 140(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002(**1**) ac adrannau 50, a 118(1) a (5) i (7) o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**2**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:—

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwasanaeth Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2005 a deuant i rym ar 30 Rhagfyr 2005.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "arweiniad plant" ("*children's guide*") yw'r arweiniad ysgrifenedig a gynhyrchir yn unol â rheoliad 4;

ystyr "cynghorydd gwasanaethau cymorth mabwysiadu" ("*adoption support services advisor*") yw'r person a benodir yn unol â rheoliad 6 o'r Rheoliadau Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2005(**3**);

ystyr "Cynulliad Cenedlaethol" ("*National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

(**1**) 2002 p.38.
(**2**) 2000 p.14.
(**3**) O.S. 2005/1512 (Cy.116).

ystyr "datganiad o ddiben" ("*statement of purpose*") yw'r datganiad ysgrifenedig a lunnir yn unol â rheoliad 3(1).

Mae i "gwarcheidwad" yr ystyr a roddir i "*guardian*" yn adran 5 o Ddeddf Plant 1989;

ystyr "gwasanaeth mabwysiadu" ("*adoption service*") yw cyflawni gan awdurdod lleol swyddogaethau mabwysiadu perthnasol o fewn ystyr adran 43(3)(a) o Ddeddf Safonau Gofal 2000;

dehonglir "rheolwr" ("*manager*") yn unol â rheoliad 6;

ystyr "swyddfa briodol" ("*appropriate office*") mewn cysylltiad â gwasanaeth mabwysiadu awdurdod lleol yw—

(a) os oes swyddfa sydd dan reolaeth y Cynulliad Cenedlaethol wedi cael ei phennu ganddo fel y swyddfa briodol mewn cysylltiad â'r awdurdod lleol hwnnw, y swyddfa honno;

(b) yn unrhyw achos arall unrhyw un o swyddfeydd y Cynulliad Cenedlaethol.

(2) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad—

(a) at reoliad â Rhif neu Atodlen yn gyfeiriad at y rheoliad sy'n dwyn y Rhif hwnnw yn y Rheoliadau hyn neu at Atodlen iddynt;

(b) mewn rheoliad neu Atodlen i baragraff â Rhif , yn gyfeiriad at y paragraff yn y rheoliad hwnnw neu'r Atodlen honno sy'n dwyn y Rhif hwnnw;

(c) mewn paragraff o is-baragraff sy'n dwyn llythyren neu rif, yn gyfeiriad at yr is-baragraff yn y paragraff sy'n dwyn y Rhif hwnnw neu'r llythyren honno.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, onid yw'n ymddangos bod bwriad i'r gwrthwyneb, mae cyfeiriadau at gyflogi person yn cynnwys—

(a) cyflogi person p'run ai am dâl ai peidio;

(b) cyflogi person o dan gontract gwasanaeth neu gontract am wasanaethau; ac

(c) caniatáu i berson weithio fel gwirfoddolwr;

a rhaid dehongli cyfeiriadau at gyflogai neu at berson sy'n cael ei gyflogi yn unol â hynny.

Datganiad o ddiben

3.—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol, o ran y gwasanaeth mabwysiadu, lunio datganiad ysgrifenedig (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "datganiad o ddiben") a rhaid iddo gynnwys datganiad ynghylch y materion a restrir yn Atodlen 1.

(2) Rhaid i'r awdurdod anfon copi o'r datganiad o ddiben i'r Cynulliad Cenedlaethol a rhaid iddo beri bod copi ohono ar gael, o ofyn amdano, i'w archwilio gan—

(a) plant y caniateir eu mabwysiadu, eu rhieni a'u gwarcheidwaid;

(b) personau sy'n dymuno mabwysiadu plentyn;

(c) personau sydd wedi eu mabwysiadu, eu rhieni, eu rhieni naturiol a'u cyn-warcheidwaid;

(ch) personau sy'n dymuno cael asesiad o'u hanghenion ar gyfer darpariaeth o wasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod;

(d) pob person sy'n gweithio at ddibenion y gwasanaeth mabwysiadu.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff (4), rhaid i'r awdurdod sicrhau bod ei wasanaeth mabwysiadu yn cael ei redeg bob amser mewn modd sy'n gyson â'i ddatganiad o ddiben.

(4) Nid oes dim ym mharagraff (3) yn ei gwneud yn ofynnol nac yn awdurdodi awdurdod i dorri neu i beidio â chydymffurfio ag unrhyw ddarpariaeth arall yn y Rheoliadau hyn.

Yr Arweiniad plant

4.—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol lunio arweiniad ysgrifenedig i'r gwasanaeth mabwysiadu (y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "yr arweiniad plant") a rhaid iddo gynnwys datganiad ynghylch y materion a restrir yn Atodlen 2.

(2) Rhaid i'r awdurdod ddarparu copi o'r arweiniad plant i—

(a) y Cynulliad Cenedlaethol;

(b) pob darpar fabwysiadydd y mae'r awdurdod wedi lleoli plentyn i'w fabwysiadu gydag ef; ac

(c) pob plentyn (yn ddarostyngedig i oed a dealltwriaeth y plentyn hwnnw), y caniateir ei leoli neu sydd wedi cael ei leoli i'w fabwysiadu gan yr awdurdod.

Adolygu'r datganiad o ddiben a'r arweiniad plant

5. Rhaid i bob awdurdod lleol—

(a) barhau i adolygu, a phan fydd yn briodol, ddiwygio'r datganiad o ddiben a'r arweiniad plant; a

(b) hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol o unrhyw ddiwygiadau o'r fath o fewn 28 niwrnod.

RHAN 2

RHEOLWYR

Penodi rheolwr

6.—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol benodi un o'i swyddogion i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu a rhaid iddo hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith o—

(a) enw'r person a benodwyd yn unol â'r rheoliad hwn; a

(b) y dyddiad y bydd y penodiad yn cychwyn.

(2) Rhaid i'r awdurdod hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol ar unwaith os yw'r person a benodwyd o dan baragraff (1) yn peidio â rheoli'r gwasanaeth mabwysiadu.

Ffitrwydd y rheolwr

7.—(1) Dim ond person sy'n ffit i wneud hynny gaiff reoli gwasanaeth mabwysiadu.

(2) Nid yw person yn ffit i reoli gwasanaeth mabwysiadu oni bai bod y person hwnnw—

(a) yn meddu gonestrwydd a chymeriad da;

(b) o ystyried maint yr awdurdod a'i ddatganiad o ddiben—

(i) yn meddu'r cymwysterau, y medrau a'r profiad angenrheidiol ar gyfer rheoli'r gwasanaeth mabwysiadu; a

(ii) yn ffit yn gorfforol ac yn feddyliol i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu; ac oni bai

(c) bod gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael ynghylch y person hwnnw ynglŷn â phob un o'r materion a bennir yn Atodlen 3.

Gofynion cyffredinol

8.—(1) Rhaid i'r rheolwr, o ystyried—

(a) maint yr awdurdod lleol a'i ddatganiad o ddiben; a

(b) yr angen i ddiogelu a hybu lles plant y caniateir eu lleoli, neu sydd wedi cael eu lleoli i'w mabwysiadu gan yr awdurdod,

(c) reoli'r gwasanaeth mabwysiadu gyda gofal, cymhwysedd a medrusrwydd digonol.

(2) Rhaid i'r rheolwr o bryd i'w gilydd ymgymryd â hyfforddiant priodol er mwyn sicrhau bod ganddo'r profiad a'r medrau angenrheidiol i reoli'r gwasanaeth mabwysiadu.

Hysbysu tramgwyddau

9. Rhaid i reolwr a gollfernir o unrhyw dramgwydd troseddol, boed yng Nghymru neu mewn man arall, hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol yn ysgrifenedig ar unwaith o—

(a) dyddiad a man y gollfarn;

(b) y tramgwydd; ac

(c) y gosb a osodwyd am y tramgwydd.

RHAN 3

DULL RHEOLI GWASANAETH MABWYSIADU AWDURDOD LLEOL

Trefniadau ar gyfer amddiffyn plant

10. Rhaid i bob awdurdod lleol baratoi a rhoi ar waith bolisi ysgrifenedig—

(a) y bwriedir iddo ddiogelu pob plentyn a leolir i'w fabwysiadu gan yr awdurdod, neu bob plentyn sy'n cael derbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod neu sydd yn derbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod rhag camdriniaeth neu esgeulustod; a

(b) sy'n gosod allan y weithdrefn y mae'n rhaid ei dilyn os digwydd unrhyw honiadau o gamdriniaeth neu esgeulustod.

Staffio

11. Rhaid i bob awdurdod lleol sicrhau fod, gan ystyried—

(a) maint yr awdurdod a'i ddatganiad o ddiben; a

(b) yr angen i ddiogelu a hybu iechyd a lles plant y caniateir eu lleoli i'w mabwysiadu gan yr awdurdod, neu blant sydd wedi cael eu lleoli i'w mabwysiadu gan yr awdurdod, neu blant y caniateir iddynt dderbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod neu blant sydd yn derbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod,

digon o bersonau â'r cymwysterau addas, sy'n gymwys ac yn brofiadol, yn gweithio at ddibenion y gwasanaeth mabwysiadu.

Ffitrwydd gweithwyr

12.—(1) Rhaid i awdurdod lleol beidio ag—

(a) cyflogi person i weithio at ddibenion gwasanaeth mabwysiadu oni bai bod y person hwnnw yn ffit i weithio at ddibenion gwasanaeth mabwysiadu; na

(b) caniatáu i berson y mae paragraff (2) yn gymwys iddo, weithio at ddibenion y gwasanaeth mabwysiadu oni bai bod y person hwnnw yn ffit i weithio at ddibenion gwasanaeth mabwysiadu.

(2) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i unrhyw berson a gyflogir, heblaw gan yr awdurdod, mewn swydd lle caiff y person hwnnw, wrth wneud ei ddyletswyddau, ddod i gysylltiad rheolaidd â phlant y caniateir eu lleoli i'w mabwysiadu gan yr awdurdod, neu sydd wedi cael eu lleoli i'w mabwysiadu gan yr awdurdod, neu y caniateir iddynt dderbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod, neu sydd yn derbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod.

(3) At ddibenion paragraff (1), nid yw person yn ffit i weithio at ddibenion gwasanaeth awdurdod mabwysiadu oni bai bod y person hwnnw—

(a) yn addas o ran ei onestrwydd a'i gymeriad da;

(b) yn meddu'r cymwysterau, y medrau a'r profiad sy'n angenrheidiol ar gyfer y gwaith y bydd y person hwnnw yn ei wneud;

(c) yn gorfforol ac yn feddyliol yn ffit ar gyfer y gwaith y bydd y person hwnnw yn ei wneud; ac oni bai

(ch) bod gwybodaeth lawn a boddhaol ar gael ynghylch y person hwnnw ynglyn â phob un o'r materion a bennir yn Atodlen 3.

(4) Rhaid i'r awdurdod gymryd camau rhesymol i sicrhau bod unrhyw berson sy'n gweithio at ddibenion y gwasanaeth mabwysiadu nad ydynt yn cael eu cyflogi gan yr awdurdod ac nad yw paragraff (2) yn gymwys iddynt yn cael eu goruchwylio'n briodol pan maent yn cyflawni eu dyletswyddau.

Cyflogi staff

13.—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol—

(a) sicrhau bod pob penodiad parhaol a wneir gan yr awdurdod at ddibenion y gwasanaeth mabwysiadu yn ddarostyngedig i gwblhau cyfnod prawf yn foddhaol; a

(b) ddarparu swydd-ddisgrifiad sy'n amlinellu eu cyfrifoldebau i bob cyflogai sy'n cael ei gyflogi gan yr awdurdod at ddibenion eu gwasanaeth mabwysiadu.

(2) Rhaid i'r awdurdod sicrhau fod pob person a gyflogir gan yr awdurdod at ddibenion y gwasanaeth mabwysiadu—

(a) yn derbyn hyfforddiant, goruchwyliaeth ac arfarnu priodol; a

(b) yn cael cyfle o bryd i'w gilydd i ennill cymwysterau pellach sy'n briodol i'r gwaith y maent yn ei wneud.

Gweithdrefn disgyblu staff

14.—(1) Rhaid i bob awdurdod lleol weithredu gweithdrefn ddisgyblu sydd, yn benodol—

(a) yn darparu ar gyfer atal dros dro gyflogai os bydd angen gwneud hynny o ystyried diogelwch neu les plant y caniateir eu lleoli i'w mabwysiadu gan yr awdurdod neu sydd wedi cael eu lleoli i'w mabwysiadu gan yr awdurdod neu y caniateir iddynt dderbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod neu sy'n derbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod.

(b) yn darparu bod methiant ar ran cyflogai i hysbysu person priodol o ddigwyddiad cam-drin, neu achos lle mae amheuaeth o gam-drin plentyn sydd wedi cael ei leoli i'w fabwysiadu gan yr awdurdod neu y caniateir ei leoli i'w fabwysiadu gan yr awdurdod neu y caniateir iddo dderbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod neu sy'n derbyn gwasanaethau cymorth mabwysiadu gan yr awdurdod yn sail y gellir cychwyn achos disgyblu arni.

(2) At ddibenion paragraff (1)(b), mae person priodol yn un o'r canlynol—

(a) rheolwr y gwasanaeth mabwysiadu;